

Diploma Lefel 4 UAL Technegol a Chynhyrchu ar gyfer y Diwydiannau Creadigol (Amser Llawn)

Mae'r Diploma Proffesiynol Lefel 4 mewn Ymarfer Technegol a Chynhyrchu ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn gwrs addysg bellach amser llawn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd nid yn unig â diddordeb mewn ystod eang o arbenigeddau cyfryngol, ond sydd hefyd yn ddiddorol mewn adeiladu ystod o safon broffesiynol gwaith cyfryngau.

Mae hwn wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau gweithio yn y diwydiant Celfyddydau Creadigol a bydd yn edrych yn agos ar weithio gyda chleientiaid ond hefyd sut i sefydlu'ch hun fel crëwr cynnwys ar lwyfannau fel YouTube, TikTok, Twitch, Facebook, Instagram, ac ati.

Mae diddordeb mewn cynnwys cyfryngol ac etheg gwaith cadarn yn hanfodol. Bydd angen sgiliau dadansoddi da arnoch, parodrwydd i arbrofi, gweithio fel tîm cynhyrchu, yn ogystal ag ymrwymiad a dyfalbarhad.

Gofynion Mynediad

Os ydych o dan 21 oed, rhaid bod gennych un o'r canlynol: 5 TGAU graddau A*- C, (neu gyfwerth) ynghyd â Diploma Estynedig (cysylltiedig â'r Cyfryngau Creadigol) neu ddau bwnc UG NEU un Lefel A llawn a bod dros 17 oed. Mae angen i bob myfyrwr gyflwyno portffolio o waith ymarferol mewn cyfweiliad. Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr aeddfed.

Rhagolygon Gyrfa

Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau Diploma Proffesiynol Lefel 4 UAL mewn Ymarfer Technegol a Chynhyrchu ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn meddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i symud ymlaen i:

Cyflogaeth:


Gall myfyrwyr sy'n cwblhau hyn hefyd symud ymlaen yn uniongyrchol i gyflogaeth yn y diwydiant celfyddydau cynhyrchu, yn benodol i rolau fel rheolwr llwyfan cynorthwyol, uwch dechnegydd, rheoli prosiect, rheoli digwyddiadau, rheoli cynhyrchu, awtomeiddio a gwerthu a thrinwyr cyfrifon llogi.

Addysg Uwch:

Bydd y cymhwyster yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu portffolio o waith, gan eu galluogi i symud ymlaen i gyrsiau

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





Addysg Uwch neu conservatoires.

Aseiad

Mae Diploma Proffesiynol Lefel 4 UAL mewn Ymarfer Technegol a Chynhyrchu ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn cynnwys tair uned orfodol:

- > Uned 1: Sefydlu egwyddorion arfer technegol a chynhyrchu
- > Uned 2: Arfer proffesiynol cymhwysol
- > Uned 3: Prosiect datblygiad proffesiynol

Er mwyn ennill Diploma Proffesiynol Lefel 4 UAL mewn Ymarfer Technegol a Chynhyrchu ar gyfer y Diwydiannau Creadigol, rhaid i fyfyrwyr gyflawni gradd Llwyddo o leiaf.

Mae Unedau 1 a 2 yn cael eu hasesu'n fewnol a'u gwirio'n fewnol yn erbyn y canlyniadau dysgu ar gyfer yr unedau hynny.

Mae Uned 3 yn cael ei hasesu'n fewnol, ei gwirio'n fewnol a'i safoni'n allanol yn erbyn y deilliannau dysgu ar gyfer yr uned honno.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

1Y

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre



☎ 0330 818 8100

✉ enquiries@nptcgroup.ac.uk

🌐 www.nptcgroup.ac.uk

